

# Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

26 Medi 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)  
Mr A Archer, y Cynghorydd ML Evans, y Cynghorydd P Harries, Dr RM Plummer, y Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.20am – 13.40pm)

- 1. Penodi Cadeirydd**  
**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd K Doolin yn Gadeirydd am y flwyddyn.
- 2. Penodi Is-gadeirydd**  
**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd S Yelland yn Is-gadeirydd am y flwyddyn.
- 3. Ymddiheuriad**  
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James. Nodwyd fod Mr A Archer yn dirprwyo ar ei rhan yn y cyfarfod.
- 4. Datgelu buddiant**  
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.
- 5. Cofnodion**  
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018 i'w dadarnhau a'u llofnodi.  
**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018.
- 6. Y Tîm Darganfod – Y Prosiect Llwybrau Adolygiad ar ôl Blwyddyn**  
Cyflwynodd swyddogion y Tîm Darganfod ddiweddariad ar waith y Prosiect Llwybrau a oedd wedi cwblhau blwyddyn o gynllun tair blynedd. Roedd dau brif faes gwaith: darparu sesiynau gwirfoddoli â chymorth ar gyfer unigolion a datblygu capasiti sefydliadau eraill i fanteisio ar y buddiannau yr oedd defnyddio'r awyr agored yn rheolaidd yn eu cynnig i'w cleientiaid. Roedd y ffocws ar annog pobl i fwynhau'r awyr agored, iechyd corfforol, lles meddyliol a datblygiad personol, yn hytrach nag ar werth y gwaith gwirfoddoli a wneir.

Soniwyd fod y prosiect yn gweithio'n dda, a'i fod yn cynnwys amrywiaeth dda o bobl a oedd oll yn gweithio i helpu'i gilydd yn ogystal â meithrin cysylltiadau rhwng grwpiau nad oeddynt efallai wedi defnyddio'r Parc



Cenedlaethol yn y gorffennol. Cyflwynwyd astudiaethau achos unigol i'r Aelodau. Dywedodd y swyddogion y byddent yn addasu'r prosiect i allu recriwtio mwy o wirfoddolwyr, cynyddu'r gallu i gofnodi bywyd gwyllt/bioamrywiaeth, arolygon teithiau cerdded ar y we a gwaith gyda sefydliadau ac elusennau awyr agored eraill.

Roedd yr Aelodau yn falch o'r hyn y llwyddwyd i'w wneud yn y 12 mis diwethaf, ynghyd â'r ymdrechion i gasglu adborth a oedd yn dangos y cynnydd a wnaed o ran y prosiect. Teimlwyd bod y defnydd o'r astudiaethau achos yn ysbrydoledig. Holodd yr aelodau am y lledaeniad daearyddol a'r amrywiaeth o wirfoddolwyr o ran eu rhyw a'r hyn a oedd yn cael ei wneud i gynnwys mwy o fenywod yn y prosiect. Dywedwyd bod y tîm yn ymwybodol nad oedd yr amrywiaeth yr hyn y byddent yn ei hoffi ond nawr roedd ganddynt 2 arweinydd benywaidd gwirfoddol a byddai hyn yn cael ei adeiladu arno. Teimlai'r Aelodau y gallai menywod fod yn fwy cyfforddus mewn grŵp benywaidd ac awgrymwyd y gallai ffocws ar fywyd gwyllt / bioamrywiaeth yn y grwpiau hyn fod o gymorth. Er nad oedd y cyfranogwyr wedi mynnu darpariaeth yn Gymraeg, barnwyd y byddai datblygu'r maes hwn yn ddefnyddiol yn y dyfodol. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai cyrraedd sefydliadau trwy e-bost yn gosteffeithiol ac efallai yn talu ar ei ganfed. Awgrymwyd hefyd y gallai SROI (Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddi) gael ei ystyried ar ddiwedd y Prosiect.

## **NODWYD**

*[Ymddiheurodd y Cyngorydd M Evans a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.]*

### **7. Gorfodi Cynllunio**

Roedd adroddiad Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu yn cyfeirio at berfformiad gorfodi cynllunio a gwaith gorfodi rhagweithiol yn yr Awdurdod. Dywedwyd, er nad oedd y ffigurau'n cymharu'n ffafriol â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru, gyda phenodiad Swyddog Gorfodi newydd roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth glirio'r ôl-groniad. Ar hyn o bryd, roedd 6 achos posibl yn mynd i'r llys a byddai'r Aelodau'n cael diweddariad am y rhain maes o law. Roedd Swyddog hefyd wedi gweithio un diwrnod yr wythnos am 20 wythnos i fonitro safleoedd Gwersylla a Charafanau a chynhyrwyd taflen newydd ynglŷn â'r rheol 28 diwrnod ar gyfer gwersylloedd a oedd yn cael ei rhoi i dirfeddianwyr a phan dderbyniwyd cwynion. Gan adeiladu ar lwyddiant hyn, cynigiwyd prosiect tebyg gan ganolbwyntio ar lety gwyliau ac eiddo 'cysylltiedig' amaethyddol. Roedd Swyddogion Gorfodi hefyd wedi bod yn mynychu cyrsiau a chynadleddau a rhannu gwybodaeth gyda swyddogion yng Nghyngor Sir Penfro a ledled Cymru.



Roedd yr aelodau o'r farn bod hwn yn adroddiad defnyddiol a bod camau mawr wedi eu cymryd wrth leihau'r ôl-groniad, ond hoffent weld sut roedd pethau ar ôl chwe mis. Atebodd y Swyddogion eu bod yn hyderus yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o achosion hirdymor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Teimlai'r Aelodau nad oedd lefel y dirwyon yn rhwystro digonol ac roeddynt eisiau gwybod a ellid defnyddio'r Ddeddf Elw Troseddau, gan fod mwy o arian oedd yn cael ei wneud yn ystod cyfnod y tor-rheol na'r ddirwy bosibl. Roeddynt hefyd am wybod pa gamau uniongyrchol, os o gwbl, y gellid eu cymryd i atal tor-rheol. Gofynnodd yr Aelodau i'w gwerthfawrogiad am y cynnydd a wnaed gael ei gyfleu i'r tîm gorfodi.

Yna, rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddyd a Chynllunio'r Parc gyflwyniad byr ar bwysau eraill sy'n wynebu'r gwasanaeth, gan gynnwys dau achos anodd a hir o ran parcio ceir yn Abereiddi a Rhosson, a her Uchel Lys yn erbyn yr Awdurdod. Dywedodd fod pob un o'r rhain yn cymryd amser i'w datrys.

## **NODWYD**

*[Ymddiheurodd y Cynghorydd A Wilcox a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.]*

### **8. Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod yn Diwedd 31 Gorffennaf 2018**

Cyflwynodd y Swyddog yr Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diwedd 31 Gorffennaf 2018. Amlygodd hyn nifer o bwyntiau ynglŷn â Chynllunio, adnewyddu'r wefan, hawliau tramwy cyhoeddus, perfformiad yn y Canolfannau, a gwirfoddoli.

Roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd gan yr Awdurdod y cymhwysedd TG cywir a digonol a bod ei brosiectau digidol ar ei hôl hi. Atebodd y Prif Swyddog Gweithredol y byddai Swyddogion yn edrych eto ar y ddarpariaeth TG o fewn yr Awdurdod. Nodwyd hefyd y gostyngiad yn nifer yr anfonebau a dalwyd ar amser. Atebodd y swyddogion mai'r gobaith oedd bod hwn yn broblem tymor byr a achoswyd gan nifer o newidiadau staff yn y tîm cyllid. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb hefyd i wybod sut roedd y parlwr te yng Nghaeriw yn perfformio a nodwyd ei fod ar hyn o bryd yn llwyddiant gweithredol ac y byddai ffigurau mwy penodol yn cael eu cyflwyno maes o law.

## **NODWYD**

### **9. Y Gofrestr Risg**

Roedd y Gofrestr Risg wedi'i hatodi i'r Aelodau ei hystyried. Bu ychydig o fân newidiadau gan gynnwys bod y setliad ariannu ar gyfer y risg tymor canolog a hirdymor wedi newid o goch i ambr. Nodwyd bod yr archwiliad



mewnol diweddaraf yn edrych ar reoli risg ac y byddai hyn yn arwain at newidiadau i'r gofrestr.

O ran risgiau 21 a 28, gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r adferiad wrth gefn yn cael ei brofi ac atebodd y swyddogion eu bod yn credu felly. O ran risg 13 mynegodd un Aelod bryder ynghylch y lliniaru a nodwyd, gan gredu bod gan yr Awdurdod ddylanwad sylweddol. Cytunodd y swyddogion i egluro'r geiriad. Yn olaf, roedd pryder bod yna risg o fethiant o ran arian y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (risg 16) yn enwedig gan fod y Swyddog SDF newydd bellach wedi gadael. Dywedwyd nad oedd unrhyw arian sylweddol ar ôl yn y gronfa i'w ddyrannu a bod yr effeithiau yn rhai tymor byr ac y byddai'r holl opsiynau'n cael eu hystyried yn glŷn â'i ddyfodol.

## **NODWYD.**

### **10. Cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithrediadau ar Brosiect y Parc Digidol**

Amlinellodd y Rheolwr Gweithrediadau waith ei dîm ac esboniodd ei fod yn bwriadu prynu system newydd o'r enw ESRI Arc, gan gwmni o America oedd yn arweinydd yn y diwydiant ac a oedd â chanolfan yn y DU. Byddai hyn yn disodli'r dull presennol o weithio ar bapur gyda'r manteision o allu cynllunio swyddi'n well a'r gallu i flaenoriaethu gwaith. Y gobaith oedd y byddai hyn yn rhyddhau Rheolwyr Wardeiniaid i gael mwy o ymgysylltiad cyhoeddus. Roedd y system hon yn hawdd iawn i'w defnyddio gydag ychydig o gefnogaeth TG angenrheidiol ac roedd modd datblygu apiau i gofnodi pob math o wybodaeth. Y gobaith oedd y byddai'r system hon yn annog mwy o adborth ynghylch problemau adrodd gan y cyhoedd trwy'r wefan newydd. Roedd proses eisoes ar waith i wirio coed a phontydd yn y Parc a chredai'r Swyddog y byddai digideiddio'r system yn ei gwneud yn fwy cadarn gan roi'r gallu i ragfynegi unrhyw broblemau ac ymateb yn gyflym.

Roedd yr Aelodau am wybod pam ei fod wedi cymryd cymaint o amser i gyflwyno'r system a faint y byddai'n costio / arbed i'r Awdurdod. Dywedodd y Rheolwr Gweithrediadau y treuliodd y 6/8 mis diwethaf yn casglu'r data angenrheidiol. Disgwylir mai'r gost fyddai £15,000 y flwyddyn am hyd at 30 o drwyddedau ac roedd adroddiad yn manylu ar y gost a'r opsiynau i'w gyflwyno i gyfarfod APC ym mis Hydref. Gallai'r Aelodau weld cryn fanteision i'r system yn enwedig o ran monitro pethau fel diogelwch coed.

## **NODWYD**

### **11. Eitemau ar gyfer Cyfarfodydd y Dyfodol**

Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai eitemau yn y dyfodol i'w hystyried gan y Pwyllgor gynnwys adolygiad o Barcmyn yr Haf, adroddiad blynyddol ar orchmynion creu llwybrau cyhoeddus a strategaeth



hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru; gofynnodd a oedd unrhyw bynciau eraill yr hoffai'r Aelodau gael adroddiadau arnynt.

Teimlai'r Aelodau fod cyflwyniadau fel y rhai a gafwyd ganddynt yn ddefnyddiol iawn. Teimlai rhai Aelodau, ar ôl mynychu Cynhadledd ddiweddar Europarc, y gellid defnyddio'r Pwyllgor fel modd o gefnogi a monitro'r Manifesto Ieuenctid a hoffent fwrw ymlaen â hyn fel eitem barhaus ar yr agenda. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am berthynas yr Awdurdod â'r amgylchedd morol, sut roedd yn rhyngweithio gydag amrywiol asiantaethau a pha fewnbwn a gafodd o ran cadwraeth ar hyd rhuban yr arfordir. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yr ardal forol o fewn y Parc Cenedlaethol, felly mewn cyd-destun adolygu perfformiad roedd yn anodd ei gyflwyno. Fodd bynnag, roedd gwaith yn mynd rhagddo yn yr ardal hon a byddai'n cynnwys yr eitem ar yr agenda yn y dyfodol.

## **NODWYD**

### **12. Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

**PENDERFYNWYD** nad oedd materion i'w dirprwyo i'w trafod gan y Grŵp Gwelliant Parhaus.

